



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Abertawe
SA1 8PH**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022-Mehefin 2023

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn â'r Athrofa

Mae Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa (APLP) yn cynnwys Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, 18 o ysgolion Arweiniol a thros 130 o ysgolion partneriaeth wedi'u lleoli'n fras ar draws de Cymru o'r dwyrain i'r gorllewin. Yn y Brifysgol, mae'r PDLP wedi cael ei leoli o fewn y Sefydliad Addysg a Dyniaethau, un o bedwar o sefydliadau o fewn Athrofa'r Brifysgol.

Mae'r bartneriaeth yn darparu tair rhaglen AGA, pob un wedi'i hachredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ers mis Medi 2019:

- TAR uwchradd (11-18), gyda llwybrau megis celf a dylunio, bioleg, astudiaethau busnes, cyfrifiadureg a TGCh, cemeg, D&T, drama, Saesneg, daearyddiaeth, hanes, mathemateg, ITM, cerddoriaeth, ffiseg, Addysg Grefyddol, a Chymraeg
- TAR cynradd (3-11)
- BA (Anrh) Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig (SAC) (3-11)

Mae'r holl raglenni yn llawn amser ac mae pob un yn cael eu cynnig yn ddwyieithog. Mae'r rhaglen BA (Anrh) addysg gynradd yn gwrs tair blynedd tra bod y rhaglenni cynradd ac uwchradd TAR yn gyrsiau blwyddyn.

Mae 147 o fyfyrwyr yn dilyn y rhaglen BA Cynradd, gyda 46 ohonynt yn dilyn y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 165 o fyfyrwyr ar y rhaglen TAR Cynradd gyda 20 yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 96 o fyfyrwyr yn dilyn y rhaglen TAR Uwchradd, gyda 15 ohonynt yn dilyn y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Crynodeb

Sefydlwyd Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa (PDPA) ar sail ymrwymiad i ddatblygu athrawon myfyriol, sy'n wybodus o ran ymchwil ac yn barod i ymgymryd â heriau creadigol.

Mae'r bartneriaeth yn elwa o gyfraniad ymarferwyr effeithiol ar draws yr ysgolion arweiniol. Yn sgil cydlynu cychwynnol y bartneriaeth a'i rhaglenni, mae ffocws cryf ar gysylltu ymarfer a theori. Mae elfennau gwerthfawr i'r rhaglenni, megis 'Pontio', lle mae myfyrrwyr yn archwilio gwybodaeth ddamcaniaethol yng nghyd-destun yr ysgol. Mae 'Profiadau Dewisol' a 'Profiadau Amgen' yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i fyfyrwyr archwilio agweddau penodol ar addysgu a dysgu ac ehangu eu gwybodaeth am addysg. Fodd bynnag, nid yw gwahanol elfennau'r rhaglen yn cysylltu'n ddigon cydlynol, ac nid yw'r rhaglen yn gyffredinol yn cefnogi cynnydd myfyrrwyr yn ddigon da.

Mae'r cyfarwyddwr academaidd newydd wedi bod yn ei swydd ers mis Ebrill 2022, ac ers iddi gael ei phenodi, bu'n rhaid iddi reoli newidiadau yn y strwythur arweinyddiaeth a phersonél. Mae hyn ynghyd â heriau'r pandemig a'r dirywiad mewn niferoedd o ran recriwtio i AGA wedi golygu bod newid strategol wedi'i rwystro. Er bod arweinyddiaeth ar y cyd o fewn y bartneriaeth yn datblygu, mae diffyg eglurder o hyd o ran llinellau atebolrwydd. Mae'r ddarpariaeth yn y bartneriaeth wedi esblygu ers ei ffurfio. Mae arweinwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i arfarniadau allanol a'r adborth gan fyfyrwyr a staff i ddatblygu eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yn ddigon cadarn, ac nid yw'r bartneriaeth wedi adnabod ei chryfderau a'i meysydd i'w datblygu yn ddigon clir. O ganlyniad, mae gormod o amrywioldeb yn y ddarpariaeth, yn arbennig, yn ansawdd yr addysgu a'r mentora.

Er gwaethaf y gwendidau hyn, mae digon o gryfderau yng ngwaith y bartneriaeth i sicrhau bod llawer o athrawon dan hyfforddiant yn gwneud cynnydd cadarn tuag at fodloni Statws Athro Cymwysedig. Mewn rhai agweddau y ddarpariaeth, mae addysgu a mentora eithriadol o gryf, ac mae rhai myfyrrwyr, yn enwedig ar y rhaglen uwchradd TAR yn gwneud cynnydd cryf ac yn datblygu i fod yn ymarferwyr hynod o effeithiol.

Argymhellion

- R1 Miniogi hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella
- R2 Cryfhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar draws y bartneriaeth i ysgogi gwelliant
- A3 Gwella cydlyniad y rhaglen er mwyn sicrhau bod digon o ffocws ar ddatblygu myfyrrwyr o ran cynllunio pynciol a chyfnod ac addysgeg
- A4 Gwella ansawdd yr addysgu a'r mentora

Beth fydd yn digwydd nesaf

Bydd y ganolfan yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd y bartneriaeth mewn 12-18 mis.

Prif ganfyddiadau

Dysgu:

Mae llawer o athrawon dan hyfforddiant ar bob rhaglen yn gwneud cynnydd cadarn tuag at gwrdd â Statws Athro Cymwysedig (SAC). Mae ychydig o fyfyrwyr ar y rhaglen BA cynradd a'r rhaglen uwchradd TAR yn gwneud cynnydd arbennig o gryf. O ran y rhaglen gynradd TAR mae cynnydd myfyrwyr yn wannach ar y cyfan, ac mae rhai yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn unig, yn enwedig y rhai sy'n hyfforddi i addysgu'r ystod oedran 3-7.

Yn gyffredinol, mae myfyrwyr yn cael eu hyfforddi'n ofalus wrth gynllunio eu gwersi. Mae llawer yn cynllunio ar gyfer cyfres o wersi sy'n ystyried dysgu blaenorol disgyblion ac yn ennyn diddordeb disgyblion mewn ystod o weithgareddau dysgu priodol. Mae llawer yn datblygu ystod ddefnyddiol o strategaethau addysgu a dysgu. Maent yn ystyried yn dda sut y gellir grwpio disgyblion, ac maent yn creu adnoddau addysgu o ansawdd da.

Wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau, mae mwyafrif y myfyrwyr yn dechrau archwilio dulliau mwy dychmygus o addysgu amrywiaeth o brofiadau dysgu, er enghraifft, wrth gynllunio gwrs ar gyfer dosbarth Blwyddyn 3 i alluogi disgyblion i greu cynrychiolaeth weledol o'r goedwig law, llunio delweddau a ffeithiau a chefnogi disgyblion wrth ddatrys problemau yn annibynnol. Mae rhai myfyrwyr yn cynllunio gwersi arbennig o greadigol o'u gwybodaeth a'u diddordebau eu hunain, er enghraifft pan drefnodd myfyriwr ymweliad gan actor o Gymru i'w ddosbarth derbyn fel y gallent ofyn cwestiynau yr oedden nhw wedi paratoi iddo. Mae lleiafrif o fyfyrwyr yn gyfyngedig o ran defnyddio'u dychmyg wrth gynllunio oherwydd eu bod yn teimlo eu bod wedi'u cyfyngu gan gynlluniau gwaith yr ysgol neu oherwydd eu bod yn cael eu cyfarwyddiadau pendant gan yr ysgol i addysgu mewn ffordd benodol. Er eu bod yn yn ymwybodol o'r angen i gynllunio ar gyfer gwahanol alluoedd disgyblion yn eu dosbarthiadau yn gyffredinol, nid yw lleiafrif o fyfyrwyr uwchradd a thua hanner y myfyrwyr cynradd yn nodi gweithgareddau dysgu addas i helpu pob disgybl i wneud cynnydd da.

Er bod llawer o fyfyrwyr yn cynllunio profiadau dysgu priodol, nid yw tua hanner yn nodi'r nodau dysgu a fwriadwyd yn ddigon clir yn eu cynlluniau gwersi. Mae'r myfyrwyr hyn yn tueddu i ysgrifennu amcanion sy'n rhy eang neu'n disgrifio'r tasgau y mae disgyblion yn mynd i'w cyflawni yn unig. Mae hyn yn cyfyngu eu gallu i ddewis y dulliau addysgu mwyaf addas ac yn golygu nad ydynt yn gallu gwerthuso effeithiolrwydd eu haddysgu o ran cynnydd disgyblion yn ddigon da. Mae rhai myfyrwyr yn ei chael hi'n anodd cynnal diddordeb disgyblion yn yr ystafell ddosbarth oherwydd nad ydynt yn ddigon clir am eu hamcanion dysgu. Mewn lleiafrif o achosion, mae myfyrwyr yn cynllunio gweithgareddau cychwynnol a chlo yn eu gwersi ond dydyn nhw ddim yn cysylltu'n ddigon da â ffocws y dysgu.

Mae gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu'r cyfnod oedran cynradd ddealltwriaeth addas o ofynion gorfodol y cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae myfyrwyr TAR uwchradd yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ofynion TGAU a Safon Uwch yn dda. Mae gan lawer o fyfyrwyr wybodaeth briodol am y Cwricwlwm i Gymru, ac maent yn dechrau archwilio cysylltiadau trawsgwricwlaidd er mwyn nodi cyd-

destunau dysgu dilys. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, mae cynllunio myfyrwyr yn adlewyrchu camsyniadau ysgolion am y Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft, y dylai cynlluniau gwersi unigol fanylu ar sut y bydd pob un o'r pedwar diben yn cael eu datblygu. Mewn rhai achosion, mae hyn yn amharu ar fyfyrwyr yn nodi ffocws dysgu clir i ddisgyblion. Yn gyffredinol, mae dealltwriaeth myfyrwyr o gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn rhy ddibynnol ar ansawdd cynllunio'r cwricwlwm mewn ysgolion partneriaeth. At ei gilydd, mae eu dealltwriaeth o egwyddorion cynllunio cwricwlwm ddim yn cael ei ddatblygu'n ddigonol.

Ar y cyfan, ar y rhaglen gynradd TAR, mae dealltwriaeth myfyrwyr o Ddysgu Sylfaen yn rhy amrywiol, ac eto, yn rhy ddibynnol ar yr hyn y maent yn ei brofi yn eu lleoliadau ysgol. Mewn gormod o achosion, nid yw myfyrwyr sy'n arbenigo mewn addysgu'r ystod oedran 3-7 yn cynllunio'n ddigon da i ddiwallu anghenion datblygiadol disgyblion nac i helpu disgyblion i ddysgu'n annibynnol neu drwy chwarae. Dydy tiwtoriaid a mentoriaid ddim yn cefnogi myfyrwyr yn ddigon da i ddatblygu eu gwybodaeth am addysgeg blynyddoedd cynnar.

Yn yr ystafell ddosbarth, mae bron pob athro dan hyfforddiant yn meithrin perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gyda disgyblion. Maent yn eiddgar i ddod i adnabod disgyblion unigol ac mae ganddynt ymwybyddiaeth addas o'u hanghenion, eu galluoedd a'u diddordebau. Mae llawer yn ymddangos yn hyderus yn eu rôl. Maent wedi sefydlu arferion priodol ac yn rheoli eu dosbarthiadau'n dda. Mae llawer o fyfyrwyr yn cyfathrebu'n dda. Maen nhw'n fodolau iaith da i ddisgyblion ac yn esbonio tasgau ac yn rhoi cyfarwyddiadau yn glir. Mae llawer o fyfyrwyr yn datblygu eu sgiliau holi yn dda. Maent yn gallu cynnal ymgysylltiad disgyblion, ac mae ambell un yn ymateb yn hyblyg ac yn effeithiol i anghenion disgyblion yn ystod y wers. Fodd bynnag, nid yw ychydig o fyfyrwyr uwchradd a lleiafrif o fyfyrwyr cynradd yn ymateb yn ddigon da i anghenion gwahanol ddisgyblion. Yn benodol, nid ydynt yn herio'r rhai mwyaf galluog. Mae ychydig o fyfyrwyr yn rheoli' dysgu'n ormodol ac nid ydynt yn caniatáu digon o gyfle i ddisgyblion ddysgu'n annibynnol.

Mae llawer o fyfyrwyr yn deall yr angen i wirio cynnydd disgyblion yn rheolaidd drwy gydol y wers. Mae tua hanner yn gwneud hyn yn fedrus, gan fonitro a chefnogi cynnydd disgyblion drwy gyfleoedd holi ac asesu wedi'u targedu, gan sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o'r dysgu a fwriadwyd. Mae rhai myfyrwyr yn dibynnu'n ormodol ar wirio cynnydd yn arwynebol, ac nid ydynt yn tynnu sylw'r disgyblion yn ddigon da at y nodweddion sy'n galluogi gwaith llwyddiannus.

Mae rhai myfyrwyr yn eithriadol o fedrus yn eu hymarfer dosbarth. Mae ganddynt wybodaeth pwnc arbenigol, yn ymgysylltu myfyrwyr yn gelfydd ac yn hybu trafodaeth dosbarth yn fedrus, gan arwain disgyblion i wneud cynnydd cryf. Mae'r myfyrwyr hyn yn deall bod rhyngweithio cadarnhaol â disgyblion a sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn digwydd oherwydd cynllunio pwrpasol.

Mae gan lawer o athrawon dan hyfforddiant sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol addas. Mae tua hanner yn canolbwyntio'n glir ar feithrin sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion mewn ystod eang o gyd-destunau dysgu. Mae lleiafrif o fyfyrwyr yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol. Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, er bod mwyafrif o athrawon dan hyfforddiant yn defnyddio geiriau ac ymadroddion syml yn Gymraeg, dim ond ychydig sy'n cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion.

Yn eu sesiynau prifysgol, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn ymgysylltu'n bwrpasol. Maent yn myfyrio ar eu profiadau ysgol ac yn eu rhannu gyda'u cyfoedion. Mewn sesiynau lle mae tiwtoriaid yn cefnogi meddwl beirniadol myfyrwyr yn llwyddiannus, mae llawer o fyfyrwyr yn ymgysylltu'n ystyriol â thestunau a syniadau addysgol. Mae llawer yn cyflwyno eu syniadau'n glir ac yn ymateb i gwestiynau'n briodol i esbonio eu meddwl a'u rhesymu.

Yn eu hastudiaethau academaidd, mae llawer o fyfyrwyr yn gallu nodi dulliau ymchwil priodol a rhoi rhesymeg gref ynghylch pam y gwnaethant eu dewis ar gyfer eu hastudiaethau. Yn eu haseiniadau, mae llawer yn gwneud cysylltiadau perthnasol rhwng theori a'u profiadau ysgol. Maent yn cyfeirio at ystod eang o destunau addysgol perthnasol a chyfredol ac yn dangos gallu cadarn i ddod i gasgliadau defnyddiol o ystod o ffynonellau. Mae llawer o fyfyrwyr yn ysgrifennu'n glir, gan lunio dadleuon rhesymegol da. Ar gyfer rhai aseiniadau, lle rhoddir rhyddid i fyfyrwyr i ddewis thema, nid ydynt bob amser yn dewis pwnc sy'n deilwng o ymchwiliad, ac mae hyn yn arwain at ganlyniadau sy'n rhy arwynebol neu'n gyfyngedig o ran gwerth.

Trwy brofiadau dysgu fel y sesiynau 'pontio' dan arweiniad yr ysgol, mae llawer o fyfyrwyr yn dangos dealltwriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol ac yn datblygu eu gwybodaeth am faterion ysgol gyfan. Maent yn myfyrio'n feddylgar ar sut mae eu profiadau eu hunain o addysgu yn cael eu cyd-destunio ac mae llawer yn gwneud sylwadau craff am y cysylltiadau â'u cyfnod a'u pwnc eu hunain, er enghraifft trwy ystyried sut y gallant gyfrannu at uchelgeisiau ysgol gyfan, megis datblygu creadigrwydd disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau cyn-ddarllen ac yn eu cysylltu'n bwrpasol â'u profiadau yn yr ysgol. Mae lleiafrif yn gofyn cwestiynau perthnasol a diddorol i'w tiwtoriaid a staff yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hyderus ac yn rhugl yn yr iaith. Maent yn cyfleu eu meddyliau a'u syniadau'n effeithiol, yn defnyddio terminoleg allweddol yn gywir ac mewn cyd-destunau yn ddeallus. Mae gan fyfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd y Gymraeg. Maen nhw'n frwdfrydig am y sesiynau maen nhw'n eu derbyn gan 'Rhagoriaith' sef Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol. Mae llawer o fyfyrwyr cynradd a mwyafrif y myfyrwyr uwchradd yn teimlo eu bod yn datblygu eu medrau Cymraeg yn dda. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw myfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn ddigon aml yn yr ysgol.

Lles ac agweddau at ddysgu:

Mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant yn meithrin perthynas broffesiynol gadarnhaol â'u mentoriaid a'u tiwtoriaid. Maent yn gwerthfawrogi'r rôl y mae eu mentoriaid yn ei chwarae wrth gefnogi eu lles a'u hiechyd meddwl. Mae llawer o fyfyrwyr yn ymwybodol o'r ystod eang o wasanaethau myfyrwyr prifysgol sydd ar gael iddynt. Mae myfyrwyr yn croesawu'r gefnogaeth a ddarperir yn y brifysgol ac yn teimlo bod hyn yn ymateb i'w hanghenion, ond nid ydynt bob amser yn sicr ynghylch ble i droi am gymorth pan fyddant ar brofiad ysgol. Yn ogystal, mae'r amrywioldeb yn ansawdd mentora a chymorth tiwtor wedi cael effaith negyddol ar les rhai myfyrwyr.

Mae gan bron pob myfyriwr ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, ac yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn rheoli eu

hanghenion llesiant yn briodol. Maent yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r arweiniad gan fentoriaid a thiwtoriaid i annog hyn. Fodd bynnag, mae lleiafrif o fyfyrwyr, yn enwedig y rhai ar y rhaglen TAR yn dweud eu bod yn cael trafferth cwrdd â gofynion o ran aseiniadau, cynllunio gwersi a gwerthusiadau.

Pan roddir y cyfle, mae mwyafrif y myfyrwyr yn cyfrannu ac yn mynegi eu barn am y bartneriaeth, er enghraifft gyda materion yn ymwneud â chynnwys ac amserlennu'r rhaglen. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr yn cymryd eu rôl o ddifrif ac yn cynrychioli eu cyfoedion mewn modd sensitif. Maent wedi derbyn hyfforddiant a chynghor defnyddiol ac yn deall eu cyfrifoldebau'n dda. Maent yn gofyn am farn eu cyfoedion ac yn rhannu unrhyw bryderon a godwyd mewn cyfarfodydd â thiwtoriaid a'r bwrdd strategol. Maent yn rhoi adborth i'w cyd-fyfyrwyr mewn modd amserol, gan rannu canlyniadau cyfarfodydd ac unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd o aflonyddu yn y brifysgol ac mewn ysgolion. Mae ganddynt ddealltwriaeth addas o'r gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant gofynnol. Er enghraifft, maent yn cael eu hanwytho am drefniadau diogelu'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn deall pwysigrwydd lles disgyblion a'i effaith ar eu gallu i ddysgu. Maent yn defnyddio'r wybodaeth o'r rhaglen a addysgir ochr yn ochr â'u haseiniadau academaidd i ddyfnhau eu dealltwriaeth o ddatblygiad y 'plentyn cyfan' a chyfraniad ysgolion ac asiantaethau arbenigol i hyn, er enghraifft, wrth ymchwilio i brosiect 'Noddfa ysgol' mewn ysgol leol sy'n croesawu ac yn cefnogi unigolion sy'n ceisio diogelwch yn yr ardal leol. Yn ystod profiadau ysgol, mae athrawon dan hyfforddiant yn rhoi sylw priodol i gynllunio a gweithredu strategaethau addas i gefnogi lles disgyblion.

Mae bron pob myfyriwr yn gadarnhaol ar y cyfan am y proffesiwn. Maent yn dangos lefelau uchel o ymrwymiad ac mae ganddynt agweddau proffesiynol addas. Ar draws pob rhaglen, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn ymgysylltu'n dda mewn llawer o sesiynau a addysgir. Maent yn gweithio'n dda gyda'u cyfoedion, yn ymateb yn dda i gwestiynau ac yn cyfrannu'n gadarnhaol yn ystod trafodaethau, er enghraifft wrth rannu canfyddiadau ymchwil.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth dda o werthoedd proffesiynol. Maent yn cael mewnwelediad buddiol ar fywyd ysgol gyfan trwy agweddau ar eu rhaglenni, megis 'pontio' a'r 'cyfnewid cyfnod'. Yn ystod eu profiadau ysgol, mae myfyrwyr yn gweithio'n dda gyda staff yr ysgol. Eu nod yw dod yn aelodau llawn o gymuned yr ysgol, gan ymgysylltu'n dda â gweithgareddau cynllunio ar y cyd, mynychu cyfarfodydd staff, nosweithiau rhieni a digwyddiadau dysgu proffesiynol. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn ceisio cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, fel clybiau ysgol a theithiau. Yn yr achosion gorau, mae myfyrwyr wedi cynnig arweiniad wrth gefnogi datblygiad staff ysgolion, er enghraifft gwella darpariaeth awyrgored fel ardal ysgol y goedwig neu ddarparu hyfforddiant staff ar sgiliau digidol.

Mae llawer o fyfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth dda o ddulliau ymchwil ac ymholiad. Mae llawer o fyfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth glir o'r rôl bwysig y mae ymchwil yn ei chwarae yn eu haddysgu o ddydd i ddydd. Maent yn deall yn dda pwysigrwydd cadw at egwyddorion moesegol. Mae lleiafrif o fyfyrwyr yn defnyddio canfyddiadau ymchwil i ddylanwadu ar eu cynllunio gwersi, er enghraifft wrth archwilio manteision ac

anfanteision defnyddio cartwnau cysyniad i sgaffaldio'r dysgu ar gyfer disgyblion gallu isel.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gydwybodol wrth olrhain eu cynnydd. Maent yn ystyried gwerthusiadau eu mentoriaid a'r targedau personol a osodwyd ganddynt yn eu myfyrdodau parhaus, gan nodi pryd a sut y maent wedi gwneud cynnydd. Mae llawer yn onest am yr hyn maen nhw'n ei wneud yn dda a'r hyn sydd ei angen arny'n nhw i wella. Maent yn llenwi eu dyddlyfrau dysgu yn gydwybodol ac yn adlewyrchu'n feddylgar yn y logiau y maent yn eu cadw ar eu taith dysgu broffesiynol. Maent yn gwneud cysylltiadau perthnasol ag ymchwil addysgol yn eu myfyrdodau yn aml. Mae llawer o fyfyrwyr yn ystyried cynnydd disgyblion mewn perthynas â theoriâu amrywiol o ddysgu. Mae lleiafrif yn gwneud hyn yn fedrus, er enghraifft wrth archwilio datblygiad sgema gwybyddol disgyblion. Yn eu haseiniadau, mae llawer o fyfyrwyr yn archwilio pynciau perthnasol, gan gysylltu theori ac ymarfer yn dda. Maent yn myfyrio ar eu profiadau ysgol ar ôl y gwaith darllen, er enghraifft wrth archwilio'r berthynas rhwng yr ysgol a'i chymuned leol. Fodd bynnag, yn y gwerthusiadau wythnosol o'u gwersi, nid ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio'n ddigon da ar effaith eu haddysgu ar gynnydd disgyblion. Dydyn nhw ddim yn dadansoddi i ba raddau y mae eu dulliau addysgu yn galluogi dysgu disgyblion yn ddigon da. Mewn rhai achosion, mae hyn oherwydd bod y gwerthusiadau hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar y targedau a osodwyd ar eu cyfer gan eu mentoriaid ac nid ar eu dadansoddiad eu hunain o effeithiolrwydd y wers neu'r gyfres o wersi. Anaml y byddant yn gwneud cysylltiadau gyda'r hyn y maent yn ei wybod am theori addysgol yn y gwerthusiadau gwersi hyn.

Mae presenoldeb bron pob disgybl yn ystod eu lleoliadau ysgol wedi bod yn dda. Fodd bynnag, mae presenoldeb myfyrwyr yn ystod sesiynau a addysgir yn y brifysgol yn rhy amrywiol.

Profiadau dysgu ac addysgu:

Mae'r bartneriaeth yn Yr Athrofa wedi datblygu rhaglenni ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yn seiliedig ar fframwaith rhesymegol a chysyniadol clir. Er bod y cwricwlwm yn darparu digon o gyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant gyflawni SAC ac mae'n cynnwys cydbwysedd priodol rhwng gweithgaredd yn yr ysgol a'r brifysgol, nid yw'r rhain bob amser yn cael eu cysylltu gyda'i gilydd yn ddigon da.

Mae ffocws cryf ar ymchwil ac ymholi ac mae modiwlau'r rhaglen yn datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o ddamcaniaeth ac ymchwil yn briodol. Mae myfyrwyr yn cael cyfleoedd priodol i gysylltu theori ac ymarfer mewn ffordd bwrpasol ac fe'u hanogir i ddefnyddio ymchwil wrth gynllunio gwersi ac ymgysylltu ag agweddau a addysgir ar y cwrs. Nod sesiynau 'pontio' yw cefnogi a darparu dull strwythuredig o'r agwedd hon ar y rhaglen. Mae'r elfen hon o'r rhaglen yn cael ei chynllunio a'i chyflwyno ar y cyd gan staff ac arweinwyr rhwydwaith y brifysgol ac mae'n hyrwyddo cyfuniad effeithiol o theori ac ymarfer. Mae athrawon dan hyfforddiant a mentoriaid ysgol yn gwerthfawrogi'r cyfle hwn i gyfarfod, profi ac yna rhannu dulliau o addysgu a'r cwricwlwm y maent wedi'i ddatblygu a'i brofi. Mae'r gweithgareddau hyn yn darparu llwyfan effeithiol ar draws cyfnodau a phynciau i archwilio theori addysgol, profiadau ymarferol ac i chwalu mythau. Yn ogystal, mae'r broses 'pontio' wedi galluogi athrawon dan hyfforddiant i gyfrannu at, a deall, agweddau ysgol gyfan fel cynllunio ar gyfer gwella a chynllunio'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oes es gan fentoriaid ac

uwch fentoriaid ddigon o wybodaeth am y rhaglen a addysgir yn y brifysgol. Ar y cyfan, nid oes cydlyniant rhwng elfennau theori ac ymarferol y cwrs.

Yn gyffredinol, mae rhaglenni'n darparu cydbwysedd priodol rhwng profiadau ysgol ac elfennau a addysgir yn y coleg. Yn ystod y rhaglen a addysgir, mae cyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu mewn grwpiau traws gyfnod a thrawsbynciol. Er bod yr amser a dreulir mewn sesiynau ar y cyd yn ddefnyddiol, nid oes gan fyfyrwyr ddigon o gyfleoedd i ddatblygu eu haddysgeg pwnc neu gyfnod penodol mewn gwirionedd, yn enwedig y rhaglen TAR uwchradd. Yn ogystal, nid oes digon o gysylltiadau rhwng dysgu myfyrwyr yn eu hastudiaethau pwnc a datblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau hyn tra ar brofiad ysgol. O ganlyniad, mae myfyrwyr yn dibynnu ar ysgolion i lenwi bylchau, yn enwedig yn eu gwybodaeth pwnc a'u haddysgeg pwnc. O ganlyniad, mae profiadau athrawon dan hyfforddiant yn amrywio yn dibynnu ar faint o gymorth a geir yr ysgol. Yn ogystal, nid yw'r cynnwys a addysgir bob amser yn cyfateb yn ddigonol i anghenion myfyrwyr. Weithiau mae'n rhy benodol ar gyfer y grŵp cyfan ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr adegau mwyaf priodol.

Mae myfyrwyr yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i wella eu profiadau cwricwlaidd. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth yn darparu cyfleoedd cyfoethogi priodol i fyfyrwyr, megis drwy 'profiadau dewisol' pan fyddant yn datblygu astudiaeth ddyfnach o agweddau penodol ar addysgu, trwy weithgarwch 'cyfnewid cyfnod', a thrwy'r 'profiadau amgen' y maent yn eu derbyn y tu allan i leoliad ysgol.

Mae'r holl raglenni yn darparu cyfleoedd priodol i fyfyrwyr ymgysylltu â'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys deall elfennau allweddol megis y pedwar diben a'r egwyddorion addysgeg. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae dealltwriaeth staff a myfyrwyr o'r Cwricwlwm i Gymru yn rhy amrywiol. Yn ogystal, er bod elfennau sylfaenol Cwricwlwm i Gymru yn cael eu deall a'u cyfeirio atynt yn ynysig, megis y derminoleg ynghylch pedwar diben a chymau cynnydd, nid yw'r ffordd y mae hyn yn ymwneud ag ymarfer yn glir ac mae myfyrwyr yn datblygu camsyniadau gan nad ydynt yn cael eu herio'n ddigon da gan diwtoriaid a mentoriaid.

Mae athrawon dan hyfforddiant yn derbyn sesiynau trochi a chyfoethogi priodol o fewn rhaglen a addysgir gan y brifysgol i wella eu sgiliau Cymraeg eu hunain. Maent yn elwa o 'Rhagoriaith', lle mae arbenigedd y staff yn cefnogi cynnydd myfyrwyr yn erbyn fframwaith cymhwysedd y Gymraeg yn dda.

Er bod y bartneriaeth yn darparu ychydig o gyfleoedd priodol i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol eu hunain, mae'r ddarpariaeth hon fel arfer yn anffurfiol. Ar ben hynny, ar y cyfan, nid oes digon o gyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i gefnogi datblygiad cynyddol sgiliau llythrennedd, rhifedd, digidol a Chymraeg disgyblion yn yr ystafell ddosbarth.

Er bod trefniadau anffurfiol priodol i adolygu'r cwricwlwm, er enghraifft mewn ymateb i adborth athrawon dan hyfforddiant ynghylch llwyth gwaith a lles, nid yw'r bartneriaeth yn cymryd dull digon strategol tuag at gynllunio'r cwricwlwm. O ganlyniad, mae'n anodd i arweinwyr werthuso effeithiolrwydd rhaglenni a gwneud gwelliannau er budd cynnydd myfyrwyr.

Ar draws y bartneriaeth, mae ansawdd yr addysgu a'r mentora yn rhy amrywiol. Mewn rhaglenni cynradd ar gyfer myfyrwyr israddedig a TAR, mae ansawdd y

sesiynau a addysgir gan y brifysgol yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, mae ansawdd y mentora ar gyfer myfyrwyr cynradd yn ystod profiadau ysgol yn amrywio gormod. Mae myfyrwyr TAR Uwchradd yn elwa o fentora cryfach pan fyddant ar brofiad ysgol, tra bod sesiynau a addysgir gan brifysgol ar gyfer y myfyrwyr hyn yn amrywio gormod o ran ansawdd. Lle mae addysgu a mentora ar ei gryfaf, mae myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau addysgu'n effeithiol ac yn datblygu dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn datblygu perthynas waith cadarnhaol â myfyrwyr yn ystod eu sesiynau a addysgir yn y brifysgol. Maent yn aml yn darparu amgylchedd dysgu cynhwysol a diddorol sy'n hyrwyddo cyfranogiad myfyrwyr yn llwyddiannus. Mae llawer o diwtoriaid yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'u meysydd pwnc neu gyfnod penodol. Maent yn cynllunio sesiynau gwerth chweil sy'n ystyried gwybodaeth flaenorol myfyrwyr ac yn eu helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddulliau addysgu effeithiol. Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn modelu strategaethau addysgu yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn defnyddio ystod o dechnegau holi i ymchwilio i feddwl myfyrwyr a datblygu gwaith pâr a grŵp i hyrwyddo trafodaeth, myfyrio, a chyfranogiad gweithredol mewn sesiynau.

Mewn ychydig iawn o achosion, mae'r addysgu'n rhagorol. Mae cyflwyno cysyniadau, megis creadigrwydd, ac ymarferoldeb y profiad dysgu yn ysbrydoli lefelau uchel o ymgysylltu a chynnydd myfyrwyr. Mae tiwtoriaid yn y sesiynau hyn yn defnyddio cwestiynu greddfodol sy'n ymchwilio ac yn meithrin myfyrdod a meddwl beirniadol myfyrwyr, gan gysylltu theori ac ymarfer yn dda iawn. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio'n dreiddgar ar ddatblygu dealltwriaeth myfyrwyr o'r Cwricwlwm i Gymru, addysgeg gysylltiedig â sut mae dysgu'n berthnasol i gynnydd tuag at y safonau proffesiynol. Trwy eu gweithredoedd yn y sesiynau hyn, mae tiwtoriaid yn modelu'r priodoleddau proffesiynol sydd eu hangen i fod yn athro hynod effeithiol. Mae rhai tiwtoriaid hefyd yn cyfeirio at eu hymchwil eu hunain. Mae hyn yn cyfoethogi eu haddysgu, yn hyrwyddo pwysigrwydd ymholi ysgolheigaid ac yn ennyn diddordeb myfyrwyr yn ystyrlon mewn ymchwil diweddar a pherthnasol.

Mewn ychydig o sesiynau, nid yw'r addysgu'n ddigon effeithiol. Yn y sesiynau hyn, nid yw tiwtoriaid yn cynllunio'n ddigon da ac nid oes ganddynt ddisgwyliadau clir ar gyfer dysgu myfyrwyr. O ganlyniad, mae'r cynnydd mewn sesiynau yn fwy cyfyngedig. Mewn ychydig achosion, mae diffyg gwybodaeth pwnc neu gyfnod y tiwtoriaid yn cyfyngu ar eu gallu i fanteisio ar gyfleoedd dysgu. Er enghraifft, nid oes ganddyn nhw'r hyder i herio camsyniadau am addysgeg a Chwricwlwm i Gymru. Yn y sesiynau hyn nid yw tiwtoriaid yn modelu addysgu effeithiol yn ddigon da ac yn colli cyfleoedd i helpu myfyrwyr i wneud cysylltiadau yn eu dysgu. Nid yw tiwtoriaid bob amser yn cefnogi dealltwriaeth myfyrwyr o gynllunio gwersi effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr hyn y bydd disgyblion yn ei ddysgu yn hytrach na'r hyn y byddant yn ei wneud yn ddigon da.

Mae'r bartneriaeth yn darparu ystod briodol o dasgau ac aseiniadau i helpu myfyrwyr i wneud cysylltiadau rhwng theori a'u profiadau yn yr ysgol. Lle mae'r rhain yn fwyaf effeithiol, maent yn helpu myfyrwyr i ystyried effaith theori ar ymarfer yn yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys cynnydd a lles disgyblion. Mae'r aseiniadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar addysgu disgyblion yn ystod profiadau ysgol. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, nid yw'r pynciau a'r themâu a ddewisir gan fyfyrwyr yn eu helpu i ddatblygu eu meddwl a'u haddysgu. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn marcio

aseiniadau'n addas yn unol â meini prawf asesu y cytunwyd arnynt ac yn cynnig adborth defnyddiol ar nodweddion ysgrifennu academaidd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae adborth yn canolbwyntio mwy ar fedrau academaidd ac ysgrifennu myfyrwyr yn hytrach nag ar ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o addysgu.

Mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol a chefnogol gyda disgyblion pan fyddant ar brofiad ysgol. Mae mwyafrif y mentoriaid yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn eu haddysgu ac yn eu cefnogi mewn modd buddiol. Mae dogfennaeth arweiniad a hyfforddiant a ddarperir gan y bartneriaeth yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ansawdd sgysiau dysgu mentoriaid gyda myfyrwyr. Yn yr ychydig o enghreifftiau gorau, mae mentoriaid yn helpu myfyrwyr i ystyried yr effaith y mae eu haddysgu yn ei chael ar ddysgu a chynnydd disgyblion. Mae'r mentoriaid hyn yn ymchwilio ac yn dyfnhau meddwl myfyrwyr trwy gwestiynu'n effeithiol er mwyn dyfnhau'r dysgu sy'n helpu myfyrwyr i fyfyrio ar addysgu a gwneud cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer. Mae ychydig o fentoriaid, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, yn helpu myfyrwyr i nodi targedau clir sydd wedi'u diffinio'n dda sy'n ystyried gwahanol gamau datblygu myfyrwyr. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw mentora yn ddigon effeithiol. Yn yr achosion hyn, mae'r adborth a roddir i fyfyrwyr yn rhy ddisgrifiadol, â diffyg ffocws neu, ar brydiau, yn canmol gormod. Nid yw targedau a gwerthusiadau yn helpu myfyrwyr i wneud cynnydd dros amser. Yn ogystal, mewn ambell ysgol, mae dealltwriaeth mentoriaid o'r dulliau mwyaf effeithiol o addysgu'r disgyblion ieuengaf yn bryder. O ganlyniad, nid yw myfyrwyr bob amser yn datblygu dealltwriaeth ddigon cryf o'r ffordd orau o hwyluso dysgu i ddisgyblion mewn dysgu sylfaen.

Yn gyffredinol, mae llawer o uwch fentoriaid yn cydlynu profiadau ysgol ar gyfer disgyblion yn eu hysgol yn dda. Maent yn trefnu profiadau dysgu defnyddiol i fyfyrwyr, gan ddefnyddio arbenigedd staff yn yr ysgol yn effeithiol ac yn cefnogi mentora trwy arsylwadau ar y cyd â mentoriaid dosbarth. Mewn rhai enghreifftiau, mae uwch fentoriaid yn cymedroli ar draws eu hysgol yn fedrus. Maent yn helpu mentoriaid dosbarth a phwnc i ddatblygu eu sgiliau hyfforddi a mentora. Er enghraifft, maent yn modelu sesiynau adborth effeithiol, yn darparu adborth ysgrifenedig enghreifftiol ac yn monitro ansawdd sgysiau dysgu rhwng myfyrwyr a mentoriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y mentora a'r cynnydd y mae myfyrwyr yn ei wneud.

Gofal, cefnogaeth ac arweiniad:

Mae nod y bartneriaeth i ddatblygu athrawon dan hyfforddiant sy'n wybodus, yn fyfyrion ac yn ymrwymedig i ddysgu proffesiynol gydol oes er budd plant a phobl ifanc wrth wraidd ei gwaith. Mae'r holl raglenni yn annog myfyrwyr i fyfyrio ar eu cefndir addysgol eu hunain ac ystyried eu hathroniaethau eu hunain o addysg wrth iddynt gychwyn ar eu taith broffesiynol.

Mae elfennau o'r rhaglen, fel 'pontio' a 'profiadau dewisol', yn darparu cyfleoedd strwythuredig gwerthfawr i fyfyrwyr ddatblygu ystod eang o werthoedd ac ymddygiadau proffesiynol craidd. Mae'r agweddau hyn ar y rhaglen wedi'u cynllunio'n addas fel bod myfyrwyr yn datblygu ymddygiad cydweithredol effeithiol, er enghraifft, trwy ddysgu rhwng cyfoedion a chyd-fyfyrwyr, a gweithio'n agos gydag ystod o ymarferwyr mewn amrywiaeth o gyd-destunau addysgol.

Mae cyfleoedd buddiol i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau arwain a'u hymrwymiad i 'arwain dysgu' fel athrawon. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrannu at gynhadledd 'Anelu at Ragoriaeth' y bartneriaeth, lle maent yn cyflwyno eu hymchwil weithredol ochr yn ochr â phrif siaradwyr, ac arwain gweithdai ar gyfer eu cyfoedion ar ystod o bynciau, megis anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff y bartneriaeth yn annog myfyrwyr i rannu eu harbenigedd pwnc yn ehangach yn ystod eu profiad yn yr ysgol, er enghraifft drwy gyfrannu at feysydd dysgu a phrofiadau ysgolion clwstwr o fewn y rhwydwaith. Mae myfyrwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd i gyfrannu at y bartneriaeth, trwy eu rôl fel 'myfyrwyr cydweithredol'. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, mae'r bartneriaeth yn ymateb yn rhy araf i'w hadborth a'u hawgrymiadau.

Nodwedd graidd o'r holl raglenni yw sut maent yn hyrwyddo ymgysylltiad athrawon dan hyfforddiant â llenyddiaeth addysgol. Maent yn cyflwyno athrawon dan hyfforddiant i ddulliau ymarferol defnyddiol i'w helpu i werthuso ymchwil berthnasol ac i fyfyrwyr ar theori addysgol. Er bod pob rhaglen yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr ddatblygu gwarediadau proffesiynol, megis ystyried ymddygiadau moesegol wrth gyflawni eu prosiectau ymchwil, mae'r rhaglen BA Cynradd, yn arbennig, wedi'i chynllunio'n ofalus ar gyfer dilyniant mewn datblygu sgiliau ymchwil athrawon dan hyfforddiant. Ar y rhaglenni TAR nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn ystyried profiadau blaenorol myfyrwyr o gynnal ymchwil. At hynny, nid yw amseru a gofynion aseiniadau wedi'u cynllunio'n ddigon da. O ganlyniad, mae lleiafrif o fyfyrwyr yn teimlo eu bod wedi'u llethu gan heriau eu llwyth gwaith.

Mae nifer o gyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant fyfyrwyr ar eu twf personol a phroffesiynol fel ymarferwyr ym mhob rhaglen. Fodd bynnag, oherwydd bod gormod o brosesau gwahanol i gofnodi eu meddyliau nid ydynt yn cysylltu'n ddigon da, mae athrawon dan hyfforddiant yn ei chael hi'n anodd adlewyrchu ar eu dysgu a'u cynnydd yn systematig. Mae'r fformatau lluosog hefyd yn ei gwneud hi'n anodd i'r bartneriaeth wybod pa mor dda y mae myfyrwyr yn datblygu eu sgiliau myfyrwyr beirniadol.

Mae gan y bartneriaeth systemau cadarn ar gyfer adnabod athrawon dan hyfforddiant nad ydynt yn gwneud cynnydd digonol yn gynnar. Mae strwythur clir ar gyfer rheoli cymorth dysgu ac ystod o ddulliau cyfathrebu addas i sicrhau bod gan diwtoriaid ddull cydgysylltiedig o ddarparu cymorth i unigolion a grwpiau o fyfyrwyr yn ystod rhannau o'r rhaglen yn y brifysgol. Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda gwasanaethau cymorth canolog i sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr am yr ystod eang o wasanaethau y gallant eu cyrchu'n bersonol ac ar-lein. Ar y rhaglen BA Cynradd, mae'r rhaglen astudio tiwtor personol hyblyg yn helpu tiwtoriaid i ymateb yn dda i ddarpar anghenion myfyrwyr ar wahanol adegau yn eu rhaglenni.

Yn gyffredinol, mae tiwtoriaid yn monitro llesiant athrawon dan hyfforddiant unigol, gan gynnwys eu hymddygiad proffesiynol, yn briodol ar draws pob rhaglen. Mae trefniadau addas ar gyfer rheoli ymddygiad myfyrwyr drwy'r broses 'Priodoldeb i ymarfer'. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r bartneriaeth yn gwerthuso effeithiolrwydd y cymorth dysgu neu les y mae'n ei ddarparu ar gynnydd a chanlyniadau myfyrwyr. Er bod system ar gyfer olrhain a monitro cynnydd myfyrwyr, nid yw'r wybodaeth bob amser yn gynhwysfawr nac yn ddiogel oherwydd diffyg trylwyredd ym mhrosesau sicrhau ansawdd a chymedroli'r bartneriaeth.

Mae ysgolion arweiniol a mentoriaid yn yr ysgol yn darparu cefnogaeth gref i les athrawon dan hyfforddiant. Mae'r dull 'tîm o gwmpas y darpar athro' yn ddefnyddiol i staff ysgolion wybod â phwy y gallant gysylltu â nhw os oes angen cyngor neu arweiniad arnynt i gefnogi lles myfyrwyr. Fodd bynnag, mae llawer o fyfyrwyr TAR o'r farn bod y dull hwn yn rhy gymhleth. Nid ydynt yn deall y model yn ddigon da ac yn aml yn cael trafferth derbyn cefnogaeth amserol i'w hymholiadau neu geisiadau am gymorth yn ystod eu profiadau ysgol. Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi athrawon dan hyfforddiant i reoli eu llwyth gwaith yn gyfyngedig. Mae'r rhaglen yn ei gwneud yn glir i athrawon dan hyfforddiant bod angen iddynt gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain. Fodd bynnag, mae yna ganllawiau cyfyngedig i alluogi myfyrwyr i wella eu llythrennedd personol, rhifedd a sgiliau digidol.

Mae trefniadau priodol ar gyfer gwneud addasiadau i gefnogi athrawon dan hyfforddiant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn ystod eu profiadau yn y brifysgol a'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw prosesau'r bartneriaeth yn gadarn o ran sicrhau bod y gefnogaeth i'r athrawon dan hyfforddiant hynny yn ddigonol ac yn amserol y mae eu hamgylchiadau weithiau yn gwneud yn beryg iddynt dangyflawni. Mae darparu addasiadau rhesymol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu gyfrifoldebau gofalu tra ar brofiad ysgol yn rhy ddibynnol ar weithgarwch ysgolion unigol.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig cyfleoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda i athrawon dan hyfforddiant ddeall materion pwysig sy'n ymwneud â chydarddoldeb, amrywiaeth, tegwch a chyfiawnder cymdeithasol. Mae'r rhain yn helpu myfyrwyr i gydnabod sut mae addysgu ac ymarfer proffesiynol effeithiol yn cefnogi disgyblion i oresgyn rhwystrau i ddysgu. Mae'r bartneriaeth yn dechrau rhoi polisïau a gweithdrefnau addas ar waith i sicrhau bod myfyrwyr yn rhydd o aflonyddu a gwahaniaethu.

Mae gan y bartneriaeth drefniadau priodol ar gyfer diogelu, gan gynnwys darparu hyfforddiant i bob myfyriwr ar sut i gadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio. Mae bron pob ysgol bartneriaeth yn rhoi briff trylwyr i fyfyrwyr ar eu gweithdrefnau amddiffyn plant ar ddechrau eu profiadau yn yr ysgol.

Arwain a rheoli:

Mae gan uwch arweinwyr yn 'Partneriaeth Dysgu Broffesiynol yr Athrofa' ymrwymiad cryf i ddarparu addysg gychwynnol athrawon yn eu harwyddair 'Trawsnewid addysg, trawsnewid bywydau'. Mae ganddynt weledigaeth briodol ar gyfer datblygu athrawon sy'n gallu meddwl yn feirniadol ac ymgysylltu ag ymchwil, ac sy'n cyfathrebu hyn yn briodol ar draws y bartneriaeth. Mae'r bartneriaeth yn edrych yn allanol, gan weithio gyda sefydliadau eraill fel yr Ysgol Addysg ym Mhrifysgol Glasgow i ddatblygu ei gwaith. Yn gyffredinol, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol ac maen nhw'n cadw'r rhain mewn cof wrth gynllunio.

Ers ei phenodi ym mis Ebrill 2022, mae'r cyfarwyddwr academiaidd wedi cymryd camau addas i fynd i'r afael ag amrywiol faterion, megis gwella amserlennu a chryfhau cyfathrebu â staff, ysgolion a myfyrwyr. Mae'n dangos ymrwymiad cryf i'r bartneriaeth ac mae ganddi weledigaeth briodol ar gyfer ei chyfeiriad yn y dyfodol. Mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn y brifysgol yn gefnogol i'r cyfarwyddwr academiaidd. Fodd bynnag, mae ganddi ormod o gyfrifoldebau, gan gynnwys, hyd yn

ddiweddar, bod yn rheolwr llinell ar 21 aelod o staff. Mae hyn yn cyfyngu'n sylweddol ar faint o amser sydd ganddi i weithio'n strategol.

Mae gan y bartneriaeth strwythur arweinyddiaeth addas sy'n cynnwys bwrdd gweithredol a grŵp arweinyddiaeth strategol, pob un yn cynnwys cynrychiolaeth ysgol a phrifysgol. Rhennir gwaith y bartneriaeth yn feysydd allweddol, pob un ag arweinydd strategol. Er bod y strwythur arweinyddiaeth yn briodol ar y cyfan, mae ffiniau'r grwpiau arweinyddiaeth yn aml yn gorgyffwrdd, ac nid yw cyfrifoldebau unigol yn cael eu diffinio'n ddigon clir. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i weithio'n strategol ac yn golygu nad yw atebolrwydd bob amser yn ddigon clir. At hynny, nid yw gwaith y grwpiau arweiniol strategol yn canolbwyntio'n ddigon da ar y meysydd pwysicaf i'w datblygu, ac mae rhai agweddau fel cynnwys a strwythur y rhaglen yn cael eu hanwybyddu. Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi gwneud newidiadau i wella strwythurau, rolau a chyfrifoldebau arweinyddiaeth, ond mae'n rhy gynnar i weld effaith y newidiadau hyn.

Mae'r cyfrifoldeb a rennir am arweinyddiaeth y bartneriaeth rhwng ysgolion a'r brifysgol yn datblygu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon cryf ar ansawdd y ddarpariaeth a gynigir i fyfyrwyr ac nid yw llinellau atebolrwydd ar draws y bartneriaeth yn ddigon clir. O ganlyniad, mae gormod o amrywiaeth yn ansawdd yr addysgu a'r mentora y mae athrawon dan hyfforddiant yn eu derbyn.

Mae cydarweinyddiaeth y bartneriaeth yn datblygu'n briodol. Mae arweinwyr o ysgolion arweiniol yn cydweithio â'u cymheiriaid yn y brifysgol ac yn cyfathrebu'n dda â rhanddeiliaid. Maent yn cael dylanwad buddiol ar y rhaglen mewn ysgolion ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau eang am addysgeg, gan gynnwys gweithredu Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddigon o drosolwg na dylanwad ar gynnwys y rhaglen a addysgir yn y brifysgol ar hyn o bryd. Mae llwybrau clir ar gyfer dewis a dethol ysgolion partner. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae arweinwyr ysgolion mewn ysgolion partner yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad. Mae rheoli perfformiad ar gyfer staff y brifysgol yn canolbwyntio'n briodol ar eu gwaith academaidd. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn yn ystyried ansawdd nac effaith addysgu tiwtoriaid yn ddigon da.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid y bartneriaeth yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod arian yn cael ei gyfeirio i gefnogi dysgu myfyrwyr. Mae'r bartneriaeth yn rhoi sylw addas i recriwtio myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a'r rhai o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig.

Mae'r bartneriaeth yn cymryd rhan mewn rhai prosesau hunanwerthuso defnyddiol ac yn casglu data a gwybodaeth werthfawr at y diben hwnnw. Er enghraifft, mae arweinwyr yn defnyddio ffynonellau tystiolaeth amrywiol, megis arolygon myfyrwyr, adolygiadau canol-modiwl a dadansoddiad o adroddiadau arholwr allanol i fyfyrion ar waith y bartneriaeth a gwneud gwelliannau yn seiliedig ar y canfyddiadau.

Mae gan arweinwyr fynediad at ddangosfwrdd defnyddiol sy'n cyflwyno data perthnasol mewn modd hygyrch. Mae hyn yn llywio prosesau hunanwerthuso'n dda ac mae'r rhain wedi'u datblygu ymhellach i ymgorffori ffynonellau data ychwanegol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r bartneriaeth yn defnyddio ystod gynhwysfawr o dystiolaeth addas i seilio eu canfyddiadau hunanwerthuso arni, yn enwedig dystiolaeth uniongyrchol. Mae bylchau nodedig yn y wybodaeth a gasglwyd. Mae'r

bylchau hyn yn cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb myfyrwyr, ansawdd addysgu myfyrwyr a thiworiaid ac ansawdd y mentora. Oherwydd bod arweinwyr yn canolbwyntio ar ystod rhy gul o dystiolaeth a bod diffyg tystiolaeth uniongyrchol, nid ydynt yn gallu triogli eu canfyddiadau yn ddigonol i ddod i werthusiadau manwl cywir.

Mae'r bartneriaeth yn dechrau datblygu ei dull o ddeall a gwella ansawdd y mentora ac mae datblygiadau diweddar yn dechrau cael effaith gadarnhaol. Mae gan y bartneriaeth hefyd fecanweithiau ar waith i rannu arfer da, er nad yw adnabod arferion o'r fath bob amser yn gadarn.

Ar hyn o bryd, nid yw pob partner yn cymryd rhan ddigonol mewn prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella. Mae rôl yr ysgol rhwydwaith arweiniol wrth sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a chanlyniadau athrawon dan hyfforddiant yn gynnar iawn yn y datblygiad. Mae cyfarfodydd partneriaeth a diwrnodau 'da i fynd' yn darparu cyfleoedd defnyddiol i staff y bartneriaeth nodi a thrafod agweddau ar wella. Fodd bynnag, nid yw'r camau sy'n codi o'r cyfarfodydd hyn yn ddigon miniog ac ni ddilynir materion yn ddigon buan wedi hynny.

Mae'r bartneriaeth wedi nodi blaenoriaethau cyffredinol addas yn y cynllun gwella, megis gwella mentora. Gan nad yw'r materion yn cael eu nodi'n ddigon penodol, mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cynllunio'n glir i wella meysydd i'w datblygu neu i adeiladu ar gryfderau. Mae gweithgorau arweinyddiaeth yn cael y dasg o wella agweddau penodol ar waith y bartneriaeth. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau gweithredu yn cynnwys dyddiadau cwblhau, sy'n eu gwneud yn anodd eu monitro ac nid yw'n gwneud disgwyliadau yn glir. Yn ogystal, mae gweithredoedd yn aml yn rhy weithredol.

Er gwaethaf y ffaith bod pocedi o waith defnyddiol i gefnogi gweithgareddau hunanwerthuso, gall y rhain fod yn ailadroddus ac nid yw'r wybodaeth a'r canfyddiadau o wahanol agweddau ar y gwaith hwn yn cael eu dwyn ynghyd mewn ffordd systematig i ddarparu darlun clir a chynhwysfawr o effeithiolrwydd y bartneriaeth. Yn gyffredinol, nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth ddigon cynhwysfawr a chadarn o gryfderau a meysydd i'w gwella ar draws pob agwedd ar waith y bartneriaeth. O ganlyniad, nid yw cynllunio ar gyfer gwella yn briodol gywir nac wedi'i dargedu.

Mae hyrwyddo ymchwil mewn addysg yn greiddiol i'r bartneriaeth. Mae staff yn cymryd rhan mewn ystod eang o brosiectau cenedlaethol, megis prosiect Camau i'r Dyfodol sy'n cefnogi datblygiad y Cwricwlwm i Gymru, a chyfraniadau i'r Prosiect Ymholiadau Proffesiynol Cenedlaethol (PYPC) a'r rhaglen meistr genedlaethol mewn addysg.

Mae staff partneriaeth yn gwerthfawrogi'r ystod eang o ddysgu proffesiynol a gynigir gan Yr Athrofa. Mae bron pob un o staff partneriaeth y brifysgol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiadol yn rheolaidd a cheir cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgolheigaidd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt naill ai wedi cyflawni, neu'n astudio ar gyfer cymwysterau academaidd uwch, y mae un o bob tri ohonynt ar lefel doethuriaeth. Mae'r bartneriaeth yn annog staff AGA ysgolion i ymgymryd ag astudiaeth academaidd trwy gynnig cyllid i gefnogi cyfranogwyr. Mae'r brifysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i staff ysgolion ymgysylltu â phrosiectau ymchwil ar

draws amrywiaeth o themâu. Rhennir syniadau a chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o ymholi mewn sawl ffordd, gan gynnwys trafodaeth mewn cyfarfodydd arweinyddiaeth, diwrnodau cynllunio ar y cyd a thrwy gylchlythyr defnyddiol a gyhoeddir ar draws y bartneriaeth.

Y flwyddyn academaidd hon, ail-lansiodd y bartneriaeth gynllun hyfforddi cymheiriaid ar gyfer staff y brifysgol sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol trwy grwpio 'trawdau' tiwtoriaid i archwilio agweddau penodol ar eu hymarfer. Mae'r gwaith hwn yn dechrau helpu i nodi anghenion dysgu proffesiynol staff, ond mae'n ddyddiau cynnar iawn yn y datblygiad. At ei gilydd, nid yw dysgu proffesiynol ar gyfer tiwtoriaid prifysgol yn ddigon da ar ddatblygu ymarfer effeithiol mewn AGA.

Mae elfen 'pontio' y rhaglen yn rhoi cyfle gwerth chweil i staff prifysgolion ac ysgolion gydweithio i ddatblygu agweddau ar y rhaglen. Mae hyn yn ddefnyddiol wrth helpu staff y brifysgol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion cyfredol mewn ysgolion, a chefnogi staff ysgolion i fod yn ymwybodol o agweddau ar ymchwil addysgol.

Er mwyn gwella mentora, mae'r bartneriaeth yn datblygu dull graddedig buddiol o hyfforddi a datblygu mentoriaid. Yr uchelgais yw bod pob mentor wedi'i hyfforddi ar y lefel gyntaf, gyda chredydau meistr ar gael ar gyfer dau lefel uwch o ddysgu a'r radd uchaf ar gyfer y rhai sydd â chyfrifoldebau arwain mewn mentora. Eleni, mae'r bartneriaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'r hyfforddiant hwn, gyda mwy na 100 o fentoriaid wedi'u hyfforddi ar lefel gradd 1 a nifer sylweddol o staff mewn ysgolion arweiniol yn ymgymryd â'r hyfforddiant gradd 2.

Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi cynllunio llawlyfr mentor newydd. Mae hyn yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r holl staff AGA wrth ddatblygu athrawon dan hyfforddiant yn glir, gan gynnwys monitro ymarfer a disgwyliadau mentor o ran ansawdd. Mae'r llawlyfr yn darparu arweiniad gwerthfawr, wedi'i wreiddio yn yr arfer orau, am sut i ddatblygu perthnasoedd proffesiynol cynhyrchol a sgiliau mentora effeithiol. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ymarfer mentora, yn enwedig ar ddatblygu sgiliau mentoriaid wrth adeiladu 'sgwrs ddysgu' gyda'u myfyrwyr lle maent yn annog myfyrdod beirniadol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o fentora yn ddigon effeithiol o hyd. Mae'r bartneriaeth yn cyfrannu'n bwrpasol at feithrin dysgu proffesiynol mewn addysg. Mae staff a myfyrwyr yn elwa o ddigwyddiadau fel y diwrnod 'Anelu at Ragoriaeth' a'r gynhadledd 'Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles' sy'n darparu cyfleoedd i ymarferwyr ysgol, myfyrwyr a gweithwyr addysg proffesiynol blaenllaw gyflwyno a thrafod eu hymchwil.

Er bod y bartneriaeth yn buddsoddi'n helaeth mewn dysgu proffesiynol, ar y cyfan, nid yw'n gwerthuso'r effaith y mae'r gwaith hwn yn ei chael ar ansawdd yr addysgu a'r mentora ac ar gynnydd myfyrwyr yn ddigon da.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Yn ystod arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinwyr y bartneriaeth ac addysgwyr athrawon unigol i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod ag uwch arweinwyr y brifysgol a llywodraethwyr i drafod cymorth y brifysgol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon
- yn cyfarfod ag uwch fentoriaid a mentoriaid am elfennau yn yr ysgol y rhaglen a'u hasesiad o athrawon dan hyfforddiant
- yn cyfarfod ag athrawon dan hyfforddiant i drafod eu cynnydd a chael eu safbwyntiau am agweddau amrywiol ar y bartneriaeth
- yn cyfarfod ag athrawon dan hyfforddiant mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr myfyrwyr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau dysgu ac yn cynnal amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi myfyrwyr yn dysgu a gweld staff yn addysgu yn yr ysgol ac yn y brifysgol
- yn arsylwi sampl o fyfyrwyr yn addysgu yn ystod eu profiad ysgol terfynol pan fyddant yn agos at gyflawni Statws Athro Cymwys (SAC)
- yn arsylwi sampl o fentoriaid yn adrodd yn ôl i fyfyrwyr am eu haddysgu
- yn craffu ar aseiniadau, myfyrdodau a chynlluniau gwersi myfyrwyr
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r bartneriaeth
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a grwpiau arwain, gwybodaeth am les myfyrwyr, gan gynnwys diogelu myfyrwyr a disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff
- yn dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i fyfyrwyr a'r holiadur i staff ac yn ystyried eu safbwyntiau trwy eu hymatebion i'r holiadur

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol ac o wefan Estyn
(www.estyn.llyw.cymru)

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 18c o Ddeddf Addysg 1994, a
fewnosodwyd gan baragraff 13 o Atodlen 14 o Ddeddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob gofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir ar
adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynghylch y
ddogfen hon/cyhoeddiad at:

Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Anchor Court, Ffordd Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at publications@estyn.llyw.cymru

Mae hwn a chyhoeddiadau eraill Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon wedi'i chyfieithu gan Trosol (Saesneg i'r Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn rhad ac am ddim mewn unrhyw
fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio
mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a phennwyd teitl yr
adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 22/09/2023